Frances Jones, Tal-y-sarn, 1805–77
Cristion a gwraig fusnes

Rhoi i'r tlawd, nid gwawd, ond gwên
A hael lesol elusen
Wnai Phanny, hoff yw hanes
Ei chamrau yn llwybrau lles!
Un anwyl yn ei henaint, -
Un gynhes oedd gan y saint.
Cywydd Coffadwriaethol R.A.Williams (Berw)

Ganwyd Frances Edwards yng Nghefn-faes, Ffestiniog, ym mis Mai 1805, yn un o bump o blant Thomas ac Ann Edwards. Symudodd y teulu i fferm Llwydcoed ac yna fferm Taldrwst, Llanllyfni, Dyffryn Nantlle. Yr oedd ei thad yn Fethodist selog ac yn ddyn diwylliedig a weithiai fel rheolwr yn y diwydiant llechi. Bu farw ei mam yn 35 oed. Gan fod ei thad yn lled gyffyrddus ei fyd anfonwyd hi i ysgol breswyl yng Nghaernarfon, ond yna dychwelodd adref i ofalu am aelwyd ei thad a daeth yn adnabyddus fel un oedd yn hael tuag at y tlodion. Yn raddol dros y blynyddoedd daeth i gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist a'i garu. Ym 1823 symudodd y pregethwr enwog John Jones i Dal-y-sarn ac ymrôdd i waith yr eglwysi lleol. Sefydlodd gyfarfod canu i ieuenctid Llanllyfni a syrthiodd mewn cariad â merch ifanc hardd ddwy ar bymtheg oed, sef Frances (Fanny) Edwards. Ar ddiwedd un o'r cyfarfodydd canu hebryngodd John Jones hi adref a rhoi llythyr yn ei llaw yn gofyn a fyddai'n ei briodi. Wedi iddi ymgynghori â'i thad, cytunodd, ac fe'u priodwyd ar 14 Mai 1823.

Wedi priodi teimlai nad oedd ei gŵr, oherwydd ei waith yn y chwarel, yn cael digon o amser i baratoi a mynd i bregethu'r Efengyl, felly cychwynnodd fusnes yn ddiymdroi gan adeiladu masnachdy ger y chwarel yn Nhal-y-sarn. Profodd ei hun yn wraig fusnes o'r radd flaenaf ac yr oedd hi'n amlwg yn wraig abl. O fewn blwyddyn yr oedd y busnes yn ddigon llwyddiannus i gynnal y

teulu, felly rhoddodd John Jones heibio'i waith yn y chwarel gan neilltuo ei holl amser i'r weinidogaeth. Tyfodd y busnes a chadwent efail gof gerllaw gan gyflogi gweithwyr yno. Datblygodd y masnachdy i werthu popeth angenrheidiol i'r gymuned: bwydydd, defnyddiau, arfau i'r gweithwyr, pylor i'r chwarel a phob math o daclau. Er mwyn cyflenwi'r masnachdy byddai Frances Jones yn mynd ar deithiau ar gefn ceffyl yn gyson i drefi fel Caer yn Lloegr, ac wedi rhai blynyddoedd, o ganlyniad i lwyddiant y busnes, adeiladodd dŷ a masnachdy newydd mewn man mwy canolog.

Ar ben hyn ganwyd iddynt ddeuddeg o blant, a Frances, yn ôl disgwyliadau'r cyfnod, oedd yn gyfrifol am eu magu, eu dilladu, eu bwydo a'u diwyllio a'u meithrin yn y ffydd, a hynny i gyd tra oedd ei gŵr fynychaf wrthi'n paratoi pregethau neu i ffwrdd ar deithiau pregethu. Fe gafodd y profiad chwerw o golli tri o'i phlant trwy salwch a bu farw ei phriod ym mis Awst 1857.

Ym 1877 aeth Frances i Landinam i gysuro'i mab a oedd newydd golli ei wraig, ac yno y bu farw ar 13 Awst. Fe'i claddwyd yn Llanllyfni. Yr oedd hi'n un o filoedd o ferched Cymru a ryddhaodd eu gwŷr i weithio dros achos Iesu Grist. Y mae'n hawdd moesoli yn ein cyfnod ni ynglŷn â thegwch hyn a'r disgwyliadau eithafol oedd ar ferched yr adeg honno, ond byw yr oeddent gan dystio i'r Arglwydd yn ôl cyfyngiadau ac arferion eu hoes.